

Shelter Cymru

cyswllt teulu

i deuluoedd gyda phlant anabl

ymgorffori'r

Ymddiriedolaeth Lady Hoare

Profiadau teuluoedd o gael mynediad at Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Astudiaeth ymchwil gydweithrediadol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon

Ein Gweledigaeth

Gweledigaeth Shelter Cymru yw y dylai pawb yng Nghymru fod â chartref boddhaol.

Rydym yn credu

- bod cartref yn hawl sylfaenol ac yn hanfodol i iechyd a lles pobl a chymunedau.
- bod rhaid cael newidiadau mawr i'r gyfraith, i ddiwylliant a chyflwyniad gwasanaethau ac i lefel yr adnoddau er mwyn i ddigartrefedd a'r angen am dai gael eu dileu'n llwyr yng Nghymru.

Ein Gwerthoedd

Annibyniaeth
Rydym yn gweithio'n ddiduedd i bobl sydd mewn angen am dai.
Byddwn yn herio'n adeiladol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y cefnogaeth cywir ac i wella arfer a dysg.

Parch
Rydym yn gweithio'n un â'r bobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau ni.
Rydym yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i helpu pobl i ddarganfod yr opsiynau gorau ar gyfer dod o hyd i gartref a'i gadw, ac i'w helpu nhw i gymryd rheolaeth ar eu bywydau eu hunain.

Profiadau teuluoedd o gael mynediad at Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl: astudiaeth ymchwil gydweithrediadol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.
Ysgrifennwyd gan Peter Mackie, Keith Bowen a Brendan McKeever

All photographs courtesy of Katie Barrett Photography

© Shelter Cymru, Tachwedd 2008

Shelter Cymru

25 Heol Walter, Abertawe SA1 5NN
Ffôn: 01792 469400 Ffacs: 01792 460050
E-bost: research@sheltercymru.org.uk
Gwe: www.sheltercymru.org.uk

Rhif elusen gofrestredig 515902

family information group
cyswllt teulu
i deuluoedd gyda phlant anabl
ymgorfforir
Ymddiriedolaeth Lady Hoare

JOSEPH ROWNTREE FOUNDATION

Gyda Chefnogaeth gan Sefydliad Joseph Rowntree

Diolchiadau

Dymuna awduron yr adroddiad gydnabod cyfraniadau pwysig y rhieni a lenwodd holiaduron yn ystod yr ymchwil. Ymhellach, hoffem ddiolch i'r grŵp bach o rieni a wnaeth sylwadau ar ddrafftiau cychwynnol y deunyddiau ymchwil. Mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod ymdrechion staff awdurdodau lleol yng Nghymru ac Awdurdod Gweithredol Tai Gogledd Iwerddon, a ddychwelodd ddata pwysig a rhoi tystiolaeth anecdotaidd ddefnyddiol ar brofiadau teuluoedd o gael mynediad at Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

Mae'n llawn mor bwysig diolch i Sefydliad Joseph Rowntree am eu cyfraniad ariannol, a wnaeth hi'n bosibl ymroi'r amser angenrheidiol i'r ymchwil. Yn benodol, dymunwn ddiolch i Alison Jarvis am ei hymroddiad i gefnogi ymchwil sy'n mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â mynediad plant anabl at addasiadau addas.

Yn olaf, cydnabyddwn gyfraniadau sylweddol y tîm ymchwil, a oedd yn cynnwys Peter Mackie, Keith Bowen a Brendan McKeever.

Cynnwys

Tudalen	Cynnwys
3	Diolchiadau
5	Cyflwyniad a chyd-destun
7	Methodoleg
10	Mynediad rhieni at DFGau: 2003 - 2008
14	Cael mynediad at wybodaeth a chyngor ar DFGau
16	Canlyniadau ceisiadau DFG
19	Profiadau o'r broses DFG
25	Casgliadau ac argymhellion
29	Cyfeiriadau

Photo by Katie Barret Photography

Cyflwyniad a chyd-destun

Yn ôl Beresford (2008: 2); 'mae'r degawd diwethaf wedi gweld cynnydd yn y sail dystiolaeth ar dai a phlant anabl… Mae'r mater hefyd wedi symud i fyny'r agenda wleidyddol, gydag adroddiadau'r llywodraeth yn datgan bod angen gwneud mwy er mwyn gwella sefyllfa tai teuluoedd sydd â phlant anabl.' Trwy dynnu ar ddata cyfredol yn Lloegr (Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2007), mae Beresford (2008) yn darganfod mai plant (0-15 oed) yw'r grŵp sy'n lleiaf tebyg o fyw mewn llety addas lle mae angen llety wedi'i addasu'n arbennig. Mae'r ystadegau'n dangos bod llai na hanner o blant anabl y mae angen arnynt gartrefi wedi'u haddasu'n arbennig yn byw mewn llety addas. Er bod gwaith Beresford yn gymwys i Loegr yn bennaf, mae'n debygol bod y sefyllfa'n debyg yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

Mae ymchwil yn dangos bod byw mewn tai anaddas yn gallu cael ystod o effeithiau negyddol ar fywydau teuluoedd. Er enghraifft, mae'n gallu cyfyngu mynediad i ganolfannau chwarae a hamdden, neu leihau natur ddigymell y plant (Oldman a Beresford, 1998). Yn yr un modd, mae tai anaddas yn gallu effeithio ar gyflwr corfforol rhieni neu ofalwyr, sydd weithiau'n cael anaf wrth ofalu am eu plant anabl (Heywood, 2004).

Mae'n glir bod llawer o blant anabl yn byw mewn llety anaddas, y mae ei ganlyniadau'n sefydledig. Er mwyn bodloni anghenion llety pobl anabl, mae awdurdodau lleol yn gallu addasu llety trwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGau) gorfodol. Dim ond un o'r mecanweithiau sydd ar gael yw hwn. Rhwng 2003 a 2005, cynhaliwyd adolygiadau ar wahân o'r broses DFG yng Ngogledd Iwerddon (Gweithgor DFG, 2003), Cymru (Jones, 2005) a Lloegr (Heywood et al, 2005). Nododd yr adolygiadau bryderon tebyg am fynediad rhieni at y grant hwn, gan gynnwys:

- Galwadau uchel a chynyddol am DFGau
- Mae'r prawf modd yn cael ei dargedu'n wael a'i ganfod i drin grwpiau'n galed, yn enwedig plant
- Mae'r dibenion y gellir defnyddio'r grant atynt a'r terfynau uchaf ar gyfer addasu'n arwain at gyfyngiadau
- Mae cymhlethdod gwneud cais yn fwy am fod y grant yn aml yn cael ei weinyddu'n annibynnol o wasanaethau gofal cymdeithasol eraill
- Mae hawl gan bobl ym mhob deiliadaeth i'r grant, ond mae cymhlethdodau yn y ffrydiau cyllid yn golygu bod anghydraddoldebau'n digwydd wrth weithredu
- Fel arfer nid yw'r broses DFG yn cael ei chyhoeddi'n eang

Ymateb bron unionsyth i'r adolygiadau hynny oedd diddymu'r prawf modd rhieni yng Ngogledd Iwerddon (Chwefror 2004), Cymru (Medi 2005) a Lloegr (Rhagfyr 2005)[1]. Hyd yn hyn, ni chynhaliwyd ymchwil i archwilio effaith diddymu'r prawf modd rhieni, er gwaethaf galwadau diweddar am weithredu fel hyn (Beresford, 2006). Ymhellach, mae tystiolaeth anecdotaidd a gyflwynwyd gan Cyswllt Teulu Cymru, yn nodi bod rhai rhieni plant anabl yn dal i wynebu anawsterau wrth gael mynediad at y grant, er gwaethaf dod â'r prawf modd rhieni i ben.

[1] Gweler McKeever (2006) am hanes manwl ymgyrch Cartrefi Addas i Blant a arweiniodd at ddiddymu'r prawf modd rhieni.

Fel ymateb i'r angen clir am dystiolaeth ar effaith diddymu'r prawf modd rhieni; datblygodd Shelter Cymru, Cyswllt Teulu Cymru a Brendan McKeever (gynt o'r Grŵp Gwybodaeth Teuluoedd yng Ngogledd Iwerddon) astudiaeth ymchwil fer a thargededig gyda'r amcan cyffredinol o fesur newidiadau ym mynediad rhieni at DFGau yn ystod blynyddoedd diweddar ac archwilio profiadau rhieni o gael mynediad at y grant. Yn fwy penodol, nod yr ymchwil yw:

- Casglu gwybodaeth ar nifer y rhieni sydd wedi cael mynediad at broses DFG er 2004
- Archwilio profiadau teuluoedd sydd wedi cael mynediad at DFGau er 2004
- Nodi materion cyfredol a galluogwyr a wynebir gan deuluoedd sydd â phlant anabl, wrth gael mynediad at addasiadau tai.

Mae cwmpas yr ymchwil yn gyfyngedig, felly bydd yn canolbwyntio o hyd ar archwilio effeithiau'r prawf modd rhieni. Fodd bynnag, bydd yr astudiaeth hefyd yn rhoi rhagor o dystiolaeth i lenyddiaeth gyfredol ar brofiadau rhieni o gael mynediad at y grant.

Photo by Katie Barret Photography

Methodoleg

Er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil, gweinyddwyd dau holiadur ar wahân: arolwg holiadur o awdurdodau lleol yng Nghymru ac Awdurdod Gweithredol Tai Gogledd Iwerddon, ac arolwg holiadur o rieni plant anabl. Rhoddir manylion ar y dulliau hyn isod.

Arolwg holiadur o awdurdodau lleol yng Nghymru ac Awdurdod Gweithredol Tai Gogledd Iwerddon

Dosbarthwyd arolygon holiadur i 22 awdurdod lleol yng Nghymru, Awdurdod Gweithredol Tai Gogledd Iwerddon (NIHE) a swyddfa ranbarthol NIHE. Yn eu hanfod, cais am ddata oedd yr holiaduron ar fynediad i grantiau cyfleusterau i blant anabl, rhwng 2004 a 2008. Gofynnwyd am ddata a oedd yn cynnwys:

- Cyfanswm yr ymholiadau a gafwyd
- Cyfanswm y ceisiadau a gafwyd
- Cyfanswm yr addasiadau a gwblhawyd
- Amser cyfartalog o ymholiad i gwblhau
- Ystod a chost gyfartalog

Yn gyfan gwbl, dychwelwyd data gan 11 awdurdod lleol yng Nghymru, NIHE, ac un swyddfa ranbarthol NIHE. Mae hon yn gyfradd ddychwelyd ddigonol i wneud rhagdybiaethau am newidiadau ym mynediad at DFGau ers diddymu'r prawf modd rhieni. Er gwaethaf y gyfradd ddychwelyd ddigonol, mae'r anallu i gael data gan yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru'n codi dau fater. Yn gyntaf, nid yw'r holl awdurdodau lleol yn cofnodi a wnaethpwyd cais DFG ar ran plentyn ai peidio. Yn ail, yng Nghymru, yn aml mae gan fwy nag un adran ddata ar fynediad at DFGau (Gwasanaethau Plant, Grantiau ayyb), sy'n achosi anawsterau am gasglu'r data a'i gysondeb. Mae'r rhain yn bryderon a godir gan yr ymchwilwyr a chan rywfaint o staff awdurdod lleol.

Mae'n bwysig nodi y cododd rhai staff awdurdodau lleol bryderon nad yw'r data'n cael ei gasglu mewn modd cyson ar draws Cymru, tra bod y data eilaidd a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn dangos newidiadau mewn mynediad dros amser, a fydd yn cyfrif am rywfaint o'r amrywiaeth rhwng meysydd gweinyddol.

Arolwg holiadur o rieni i blant anabl

Dyfeisiwyd holiadur lledstrwythuredig ar gyfer rhieni plant anabl. Peilotwyd yr holiadur a thaflen eglurhaol gyda grŵp o rieni sydd â phlant anabl, er mwyn cytuno ar fformat terfynol effeithiol. Archwiliodd yr holiadur y themâu canlynol:

- Ymwybyddiaeth o'r DFG a sut i gael mynediad ato
- Profiadau o wneud cais am DFG
- Rhesymau posibl am beidio â gwneud cais am DFG

Dosbarthwyd holiaduron i rieni plant anabl yng Nghymru a Gogledd Iwerddon trwy dri mecanwaith. Yn gyntaf, trwy gylchlythyr sefydliad sector gwirfoddol yng Nghymru'n gweithio gyda theuluoedd sydd â phlentyn anabl. Yn ail, i deuluoedd sydd wedi gwneud ymholiad am DFGau, trwy dimau'n gweinyddu DFGau yn 11 awdurdod lleol yng Nghymru. Yn olaf, dosbarthwyd holiaduron gan un swyddfa ranbarthol Awdurdod Gweithredol Tai Gogledd Iwerddon.

Yn gyfan gwbl, dychwelwyd 137 o holiaduron. Mae Tabl 1 yn dangos y dull y cafodd yr ymatebwyr yr holiadur. Mae'n dangos bod oddeutu 90% o ymatebwyr o Gymru, y cafodd y rhan fwyaf ohonynt yr holiadur trwy sefydliad sector gwirfoddol. Yn fwy penodol, mae bron i 65% o ymatebwyr sydd o Gymru, yn byw mewn dim ond 8 awdurdod lleol. Yn yr un modd, mae 60% o ymatebwyr sydd o Ogledd Iwerddon, yn byw mewn dim ond un sir. Mae'n bwysig nodi y disgwyliwyd y gyfradd ateb isel o Ogledd Iwerddon oherwydd graddfa gyfyngedig yr ymchwil. Mae'r maint sampl isel yn golygu y gellir tynnu dim ond data amlder sylfaenol er mwyn cymharu profiadau teuluoedd yng Ngogledd Iwerddon a Chymru. Er ei bod yn ymddangos bod profiadau'n debyg yn y rhan fwyaf o agweddau, amlygir unrhyw wahaniaethau yn yr adroddiad.

Tabl 1. Dulliau derbyn yr holiadur aelwydydd

Gwlad	Dull derbyn yr holiadur	Nifer yr aelwydydd	Canran o'r holl aelwydydd
Cymru	Sector gwirfoddol Awdurdod lleol	65 58	48% 42%
Gogledd Iwerddon	Awdurdod Gweithredol Tai	14	10%
Cyfanswm		**137**	**100%**

Nod yr arolwg aelwyd oedd casglu barnau rhieni a oedd wedi cael profiad o wneud cais am y grant ond ystyried hefyd a yw rhieni'n hollol ymwybodol o'r grant ac efallai a oes materion sydd wedi'u hatal rhag gwneud cais. Mae'r boblogaeth sampl yn galluogi archwilio'r materion gwahanol hyn oherwydd bod 71% wedi gwneud cais a 29% heb wneud cais (Tabl 2).

Tabl 2. Ceisiadau DFG gan yr aelwydydd a arolygwyd

Ceisiadau am DFG	Nifer yr aelwydydd	Canran o'r holl aelwydydd
Cais wedi'i wneud	98	71%
Cais heb ei wneud	39	29%
Cyfanswm	**137**	**100%**

Mae Tabl 3 yn dangos bod yr ymatebwyr a wnaeth gais am DFG wedi gwneud hyn yn yr holl flynyddoedd hyd at 2008. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi gwneud cais yn 2006, 2007 neu 2008, er i ganran sylweddol wneud cais cyn diddymu'r prawf modd rhieni.

Tabl 3. Blwyddyn o geisiadau DFG gan yr aelwydydd a arolygwyd

Blwyddyn cais DFG	Nifer yr aelwydydd	Canran yr aelwydydd a wnaeth gais
2003 neu gynt	19	20%
2004	5	5%
2005	9	9%
2006	23	24%
2007	18	18%
2008	16	16%
Ansicr	8	8%
Cyfanswm	**98**	**100%**

Mae Tabl 4 yn dangos mai perchen-feddianwyr (89%) oedd y rhan fwyaf o rieni a ymatebodd i'r arolwg holiadur, sydd, yn ôl ystadegau ar gyfer holl dderbynwyr DFG yng Nghymru (Uned Data Llywodraeth Leol Cymru, 2007), bron i 20% yn fwy na chyfran y derbynwyr DFG sy'n berchnogion cartref[2].

Tabl 4. Deiliadaethau tai'r teuluoedd a arolygwyd

Deiliadaeth tai	Nifer yr aelwydydd	Canran yr holl aelwydydd
Y sector rhentu preifat	3	2%
Perchen-feddiannydd	122	89%
Awdurdod lleol	9	6%
Cymdeithas Tai	2	2%
Eiddo wedi'i brydlesu	1	1%
Cyfanswm	**98**	**100%**

[2] Mae'r data hwn yn gymwys i'r holl DFGau a ddyfarnwyd, nid dim ond DFGau a ddyfarnwyd ar ran plant..

Mynediad rhieni at DFGau: 2003 - 2008

Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o newidiadau diweddar ym mynediad rhieni at DFGau, gan dynnu ar ddata eilaidd a ddychwelwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, NIHE ac un swyddfa ranbarthol NIHE. Mae'r bennod yn archwilio newidiadau mewn tair elfen: nifer yr ymholiadau a cheisiadau a gwblhawyd, yr amser cwblhau cyfartalog a chost y grantiau.

Ymholiadau a cheisiadau a gwblhawyd

Mae Ffigur 1 yn dangos cynnydd yn nifer yr ymholiadau yng Nghymru rhwng 2004 a 2005 ac eto rhwng 2006 a 2007. Mae'n bosibl bod y cynnydd cychwynnol yn ymholiadau'n gysylltiedig â maint y cyhoeddusrwydd am y grant cyn diddymu'r prawf modd rhieni. Yn ôl pob tebyg mae'r cynnydd mewn ymholiadau rhwng 2006 a 2007 yn adlewyrchu'r ffaith bod y prawf modd rhieni wedi'i ddiddymu ac roedd rhieni naill ai wedi gohirio gwneud ymholiad neu roeddent yn ymwybodol y bu newid i broses DFG. Er enghraifft, ar ôl y diddymu, adroddodd rhai staff awdurdod lleol iddynt gysylltu â rhieni a oedd wedi ymholi ynghylch gwneud cais o'r blaen er mwyn eu hannog i wneud cais.

Mae Ffigur 1 hefyd yn dangos cynnydd yn nifer y ceisiadau a gwblhawyd ar ôl diddymu'r prawf modd rhieni yn 2005. Rhwng 2005 a 2007, cynyddodd nifer y ceisiadau a gwblhawyd yng Nghymru o oddeutu 50 i 180. Mae oediad rhwng ymholiadau a cheisiadau a gwblhawyd, sy'n awgrymu bod nifer y ceisiadau a gwblhawyd yn debygol o gynyddu yn y blynyddoedd nesaf. Yn enwedig, mae'r cynnydd arwyddocaol mewn ymholiadau a cheisiadau a gwblhawyd yn wahanol i nifer gymharol gyson yr ymholiadau a cheisiadau a gwblhawyd gan oedolion ynghylch DFG (Uned Data Llywodraeth Leol Cymru, 2007). Mae'n ymddangos bod diddymu'r prawf modd rhieni wedi cael effaith ar DFGau yng Nghymru o ran nifer yr ymholiadau a cheisiadau a gwblhawyd.

Ffigur 1. Nifer gyfartalog y DFGau yng Nghymru o ran nifer yr ymholiadau a cheisiadau a gwblhawyd 2004 - 2007



Ffynhonnell: Data a ddychwelwyd gan 11 awdurdod lleol yng Nghymru[3]

[3] Ni allai'r holl awdurdodau lleol roi data ar ymholiadau a cheisiadau a gwblhawyd ar gyfer pob blwyddyn. Allosodir data i roi cyfanswm ar gyfer Cymru gyfan. Ymholiadau: 2004 (n=7), 2005-2007 (n=8) Ceisiadau a gwblhawyd: 2004 (n=9), 2005-2006 (n=10), 2007 (n=11).

Rhoddodd NIHE ddata ar gyfanswm y cymeradwyaethau DFG yng Ngogledd Iwerddon (Ffigur 2). Mae Ffigur 2 yn dangos patrwm tebyg i'r profiad yng Nghymru, er bod y cynnydd mewn cymeradwyaethau'n dechrau o leiaf blwyddyn yn gynharach yng Ngogledd Iwerddon, sy'n debygol o adlewyrchu diddymu'r prawf modd rhieni yn gynt yn 2004. Mae'r cynnydd serth cychwynnol mewn cymeradwyaethau'n debygol o fod yn ymateb syth i ddiddymu'r prawf modd rhieni, gyda chymeradwyaethau'n cynyddu'n fwy graddol ar ôl 2005/06. Rhwng 2003/04 a 2007/08, cynyddodd nifer y cymeradwyaethau o lai na 10 i oddeutu 110.

Ffigur 2. Nifer gyfartalog cymeradwyaethau DFG yng Ngogledd Iwerddon 2003 – 2008



Ffynhonnell: Data a ddychwelwyd gan Awdurdod Gweithredol Tai Gogledd Iwerddon

Amser cwblhau

Dim ond ar gyfer Cymru roedd data ar gael ar gyfer yr amser a gymerwyd rhwng ymholiad cychwynnol a chwblhau addasiadau. Mae Ffigur 3 yn dangos y bu gostyngiad graddol, ond arwyddocaol, yng nghyfanswm yr wythnosau a gymerwyd i addasiadau gael eu cwblhau. Mae'n annhebygol bod hyn o ganlyniad i brosesau symlach (h.y. dim prawf modd) am fod yr amser cwblhau cyfartalog yn cynyddu ar ôl 2006. Yn yr un modd, nid yw'n ymddangos bod modd ei esbonio gan newidiadau i gost addasiadau (Ffigur 4). Mae'n fwy tebygol bod gwelliannau yn yr amser cwblhau o ganlyniad i ymdrechion awdurdodau lleol i wella amseroedd cwblhau.

Ffigur 3. Amseroedd cwblhau cyfartalog ar gyfer DFGau yng Nghymru 2004 - 2007



Ffynhonnell: Data a ddychwelwyd gan 11 awdurdod lleol yng Nghymru [4]

[4] Ni allai'r holl awdurdodau lleol roi data ar amser cwblhau cyfartalog ar gyfer pob blwyddyn. Amser cwblhau cyfartalog: 2005 (n=4), 2005 (n=4), 2006 (n=7), 2007 (n=10)

Costau addasu

Mae Ffigur 4 yn dangos nad yw diddymu'r prawf modd rhieni wedi cael unrhyw effaith glir ar gost gyfartalog addasiadau DFG yng Nghymru, sydd wedi aros ar oddeutu £15,000 y cais. I'r gwrthwyneb, ers diddymu'r prawf moddion rhieni, bu cynnydd cyffredinol yng nghost gyfartalog addasiadau DFG yng Ngogledd Iwerddon (Ffigur 5).

Ffigur 4. Costau cyfartalog addasiadau DFG yng Nghymru 2004 – 2007



Ffynhonnell: Data a ddychwelwyd gan 11 awdurdod lleol yng Nghymru[5]

Ffigur 5. Costau cyfartalog addasiadau DFG yng Ngogledd Iwerddon 2004 – 2008



Ffynhonnell: Data a ddychwelwyd gan Awdurdod Gweithredol Tai Gogledd Iwerddon[6]

[5] Ni allai'r holl awdurdodau lleol roi data ar ymholiadau a cheisiadau a gwblhawyd ar gyfer pob blwyddyn. Cost isaf ac uchaf: 2004 (n=2), 2005 (n=3), 2006 (n=6), 2007 (n=8) [6] Mae'r data o swyddfa ranbarthol NIHE, yn cyfrif am oddeutu 16% o'r holl DFGau plant yng Ngogledd Iwerddon.

Cael mynediad at wybodaeth a chyngor ar DFGau

'Dw i erioed wedi clywed am y grant hwn. Sut gallwn ni wneud cais amdano fe os nad yw'n cael ei hysbysebu'n gyhoeddus neu os nad oes gwybodaeth ar gael i bawb sy'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl? Sut mae hyn yn gallu cael ei wella a phwy ydyn ni i fod i fynd ato i gael rhagor o wybodaeth am y Grant Cyfleusterau i'r Anabl?' (Rhiant)

Mae'r dyfyniad uchod yn cynrychioli profiadau llawer o rieni sydd â phlant anabl. Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau rhieni am argaeledd gwybodaeth am bwy sy'n gallu gwneud cais, lle i wneud cais a beth mae'r grant yn gallu cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.

Mynediad at wybodaeth am bwy sy'n gallu gwneud cais

Dywedodd y rhan fwyaf (75%) o rieni a atebodd yr arolwg holiadur nad oes digon o wybodaeth am bwy sy'n gymwys i wneud cais am DFG (Ffigur 6). Er enghraifft, honnodd un rhiant:

'Doeddwn i ddim yn ymwybodol o'r grant hwn achos fy mod i a'm gŵr yn gweithio a dw i wedi bod o dan yr argraff na allwn ni wneud cais am unrhyw grantiau.' (Rhiant)

Ffigur 6. Canfyddiadau ar argaeledd gwybodaeth am bwy sy'n gallu gwneud cais am DFG



Argaeledd gwybodaeth am bwy sy'n gallu gwneud cais

Mynediad at wybodaeth am ble i wneud cais

Honnodd canran uchel (73%) o rieni nad oes digon o wybodaeth am ble i wneud cais am DFG (Ffigur 7).

> *'Nid oes unrhyw wybodaeth sy'n hawdd dod o hyd iddi am ba adran yn y cyngor i gael help a chyngor a gwneud cais.' (Rhiant)*

Ffigur 7. Canfyddiadau ar argaeledd gwybodaeth am ble i wneud cais am DFG



Argaeledd gwybodaeth am ble i wneud cais

Mynediad at wybodaeth am beth mae DFGau yn gallu cael eu defnyddio ar ei gyfer

Roedd cymaint â 80% o rieni a holwyd yn meddwl nad oes digon o wybodaeth am beth mae DFGau yn gallu cael eu defnyddio ar ei gyfer (Ffigur 8). Ynghyd â'r data a gyflwynwyd yn Ffigurau 6 a 7, mae'n glir bod rhieni'n ei chael yn anodd cael mynediad at wybodaeth am DFGau.

Ffigur 8. Argaeledd gwybodaeth am beth mae DFGau yn gallu cael eu defnyddio ar ei gyfer



Argaeledd gwybodaeth am beth mae DFGau yn gallu cael eu defnyddio ar ei gyfer

Er gwaethaf y diffygion canfyddadwy clir yn narpariaeth gwybodaeth, gwnaeth rhieni a staff awdurdodau lleol nodi nifer o arferion cadarnhaol. Cefnogir hyn yn ffigurau 6,7 ac 8 sy'n dangos bod oddeutu 20% o rieni'n credu bod digon o wybodaeth am DFGau. Nodwyd dwy enghraifft o arfer cadarnhaol. Y gyntaf yw awdurdod lleol yng Nghymru sy'n targedu teuluoedd plant anabl yn rhagweithiol, trwy elusennau plant a grwpiau cymunedol, er mwyn codi ymwybyddiaeth. Yr ail enghraifft o arfer da yw i rieni adrodd cael gwybod am DFGau trwy ystod eang o sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys; teulu/ffrindiau, gweithwyr cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol, gweithwyr cymorth, y rhyngrwyd, Swyddfa LBA (Lwfans Byw i'r Anabl), gweithwyr proffesiynol iechyd ac elusennau/cymdeithasau. Mae'n amlwg bod gwybodaeth yn defnyddio ystod eang o fecanweithiau.

> *'Cawson ni wybod am y grant trwy gymdeithas MPS, yn eu newyddlen. Pe na baen ni wedi ymuno â'r gymdeithas, fydden ni ddim wedi gwybod.' (Rhiant)*

Canlyniadau ceisiadau DFG

Diben y bennod hon yw rhoi disgrifiad byr o ganlyniadau ceisiadau rhieni am DFGau. Ymhellach, mae'n disgrifio beth gafodd y grant ei ddefnyddio ar ei gyfer, ac os cafodd y grant ei wrthod, mae'n archwilio rhesymau am hyn. Yn olaf, mae'r bennod yn archwilio pam mae rhai rhieni'n ystyried gwneud ceisiadau, ond yn penderfynu peidio. Tynnir y data hwn o arolwg holiadur rhieni yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

Canlyniadau DFG

Mae Ffigur 9 yn dangos bod y rhan fwyaf o rieni a arolygwyd a oedd wedi gwneud cais DFG, wedi derbyn y grant (82%), roedd 11% wedi'u gwrthod ac roedd 7% o geisiadau'n amhenderfynedig. Roedd canlyniadau i rieni a arolygwyd yng Ngogledd Iwerddon ychydig yn wahanol i'r patrwm cyffredinol hwn, gyda llai na 63% o rieni'n cael y grant. Mae'n aneglur a yw'r patrymau hyn yn adlewyrchu patrymau cyffredinol canlyniadau ceisiadau ar draws Cymru a Gogledd Iwerddon, ond mae yn dangos bod nifer yr aelwydydd y gwrthodwyd grant iddynt yn gymharol ychydig yn y ddwy wlad.

Ffigur 9. Canlyniadau ceisiadau DFG i blant



Addasiadau a gyllidwyd gan DFGau

Mae Tabl 5 yn dangos pa addasiadau a gyllidwyd gan y DFGau. Roedd bron i hanner (46%) o'r holl addasiadau ar gyfer ystafelloedd gwely, tra y bu canran uchel ar gyfer addasiadau mwy, megis estyniad i'r eiddo (18%). Roedd gweddill yr addasiadau (36%) ar gyfer gweithiau llai, gan gynnwys addasiadau gardd a gwelliannau cyffredinol yn ymwneud â mynediad i'r anabl. Mae peth gwahaniaeth i'r patrwm cyffredinol hwn yn yr arolygon a lenwyd gan rieni yng Ngogledd Iwerddon. Roedd oddeutu 50% o addasiadau ar gyfer estyniadau eiddo ac roedd 33% ar gyfer addasiadau ystafell wely. Mae'n annhebygol bod yr amrywiad hwn yn cynrychioli unrhyw amrywiad o ran mathau'r grantiau a gyllidwyd yn y ddwy wlad, mae'n fwy tebygol o adlewyrchu'r maint sampl bach ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Tabl 5. Mathau o addasiad a gyllidwyd gan y DFG ar gyfer yr aelwydydd a arolygwyd[7]

Diben yr addasiad	Nifer yr aelwydydd	Canran yr aelwydydd a atebodd
Lifft grisiau	3	4%
Estyniad eiddo	13	18%
Addasiad ystafell ymolchi	34	46%
Addasiad ystafell wely	6	8%
Symud cartref	1	1%
Gwres canolog	5	7%
Mynediad cyffredinol i'r anabl	9	12%
Addasiad gardd	3	4%
Cyfanswm	**74**	**100%**

Rhesymau am wrthod DFG

Gwrthodwyd DFGau i gyfran fach o aelwydydd a cheisiodd yr ymchwil ddangos pam. Mae Tabl 6 yn dangos y barnwyd nad oedd angen addasiad ar gyfer y rhan fwyaf o rieni (67%). Roedd rhesymau eraill yn cynnwys yr angen i wneud cyfraniad ariannol ac anawsterau wrth gael mynediad at Therapydd Galwedigaethol.

> *'Lluniwyd cynlluniau, ond doedd dim digon o le i droi'r gadair olwyn. Hefyd, doedd dim digon o arian i dalu amdani hi.' (Rhiant)*

> *'Ces i fy ngwrthod ddwywaith. Roedd y Therapydd Galwedigaethol (ThG) a wnaeth yr atgyfeiriad yn meddwl y byddai'r addasiadau'n gymorth, ond roedd barn wahanol gyda'r pwerau sydd ohoni – dw i wedi rhoi'r gorau.' (Rhiant)*

Tabl 6. Rhesymau pam na chafodd aelwydydd a arolygwyd grant

Rheswm am beidio â derbyn grant	Nifer yr aelwydydd	Canran yr aelwydydd a atebodd
Angen gwneud cyfraniad ariannol	2	22%
Anawsterau wrth gael asesiad cychwynnol gan therapydd galwedigaethol	1	11%
Penderfynwyd nad oes angen addasiad	6	67%
Cyfanswm	**9**	**100%**

[7] Ni nododd yr holl rieni natur defnydd yr addasiadau, felly nid yw'r cyfanswm yn gyfartal â chyfanswm yr aelwydydd a dderbyniodd grant.

Rhesymau am benderfynu peidio â gwneud cais am DFG

Ystyriodd o leiaf 10 rhiant wneud cais DFG cyn penderfynu peidio â mynd â'r cais yn ei flaen. Mae Tabl 7 yn dangos mai'r prif reswm am hyn yw bod rhai rhieni'n meddwl eu bod yn anghymwys i gael cymorth. Yn yr un ffordd, nid yw rhai rhieni'n gwneud cais am eu bod yn meddwl bod yr addasiadau arfaethedig yn amhriodol.

> *'Penderfynon ni fod beth oedd yn cael ei gynnig yn "rhy anabl". Mynnon nhw roi mynediad cadair olwyn llawn, gan gynnwys cylch troi oedolion llawn. Mae fy merch yn defnyddio cadair olwyn am bellter yn unig ac roedd hyn yn ormod. Rydyn ni'n byw mewn tŷ tri llawr – pe bai angen cadair olwyn arni'n amser llawn, allen ni ddim byw yma. Roedden ni'n teimlo bod beth oedd yn cael ei gynnig yn ormodol.' (Rhiant)*

Mae rhesymau ychwanegol am beidio â gwneud cais yn cynnwys; yr helbul canfyddedig o wneud cais, penderfynu symud tŷ yn lle, a chael eu hysbysu eu bod yn anghymwys fel tenant Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) neu denant Awdurdod Lleol (ALl). Mewn gwirionedd, esboniodd un cynrychiolydd awdurdod lleol fod rhieni'n cael eu hannog i gael benthyciad gwerthfawrogiad eiddo.

> *'Dw i wedi meddwl am wneud cais, ond mae'r helbul sy'n gysylltiedig yn tarfu arna i. Dw i'n dychmygu'ch bod chi'n cael llawer o lythyrau ac ymweliadau gan y proffesiwn iechyd ac ysgolion ac ati. Mae fy mab yn 11 oed nawr ac rydyn ni'n cael ei bod hi'n fwyfwy anodd rhoi bath iddo fe wrth iddo fe dyfu a mynd yn hŷn. Dw i'n gwybod y bydd angen gwneud addasiadau yn y dyfodol, ond gan ei fod e'n gallu cael ei godi lan llofft, dw i'n meddwl y gallai fod yn rhy gynnar i wneud cais.' (Rhiant)*

> *'Holais i yn 2007 a dywedwyd wrtha i nad oes hawl gen i fel tenant cyngor. Allai'r adran dai ddim nodi gweithiwr o gwbl a oedd yn rhoi cyngor am DFGau.' (Rhiant)*

Tabl 7. Rhesymau pam penderfynodd aelwydydd a arolygwyd beidio â gwneud cais am DFG

Rhesymau am beidio â gwneud cais DFG	Nifer yr aelwydydd	Canran yr aelwydydd a atebodd
Meddwl na fydden nhw'n gymwys	4	37%
Hysbyswyd na allent wneud cais fel tenant LCC neu All	1	9%
Canfuwyd bod yr addasiadau arfaethedig yn amhriodol	3	27%
Wedi penderfynu symud tŷ	1	9%
Yr helbul o wneud cais	2	18%
Cyfanswm	**11**	**100%**

Profiadau o'r broses DFG

Mae'r bennod hon yn tynnu ar ddata o arolwg holiadur rhieni ac yn archwilio'u profiadau ar ôl cais DFG. Mae'r bennod yn dechrau gyda chrynodeb o brofiadau cyffredinol rhieni; yn nodi amrywiadau yn ôl ardal awdurdod lleol, blwyddyn cais a math o addasiad. Mae'r bennod yn gorffen gyda thrafodaeth ar ganfyddiadau rhieni o'r agweddau cadarnhaol a negyddol pendant o wneud cais am DFG.

Canfyddiadau cyffredinol

Roedd profiadau rhieni o'r broses DFG yn gymysg (Ffigur 9). Er i lawer (41%) o rieni gael profiadau a ddosbarthwyd fel 'da yn gyffredinol', roedd oddeutu 36% o rieni wedi cael profiadau a ddosbarthwyd fel 'drwg yn gyffredinol'. Mae'n ymddangos bod profiadau rhieni yng Ngogledd Iwerddon yn waeth na phrofiadau yng Nghymru: roedd 63% o brofiadau'n cael eu disgrifio fel 'cymysg' a 37% fel 'drwg yn gyffredinol'. Mae profiadau gwaeth yng Ngogledd Iwerddon yn debygol o adlewyrchu'r ffaith y gwrthodwyd grant i fwy o rieni yn sampl Gogledd Iwerddon ac roedd canran uwch o ymgeiswyr llwyddiannus wedi gwneud cais am addasiadau mwy. Yn hwyrach yn y bennod hon, darganfyddir bod addasiadau mwy, megis estyniad, yn cael eu cysylltu â phrofiadau gwaeth. Yn nodedig, ni ellir cymryd yn ganiataol bod yr amrywiad hwn yn adlewyrchu'r ystod eang o brofiadau yng Ngogledd Iwerddon oherwydd y maint sampl bach.

Ffigur 10. Profiadau rhieni o wneud cais am DFG



Mae Tabl 8 yn dangos bod profiadau rhieni o wneud cais am DFG yn amrywio yn ôl lle maen nhw'n byw[8]. Detholwyd pum awdurdod lleol yng Nghymru am gymhariaeth, ar y sail nad oedd llai na chwe rhiant wedi nodi eu bod yn byw ym mhob awdurdod. Mae Tabl 8 yn datgelu bod profiadau rhieni o wneud cais am grant yn yr ardaloedd awdurdod lleol hyn yn amrywio o 83% 'da yn gyffredinol' i 43% 'da yn gyffredinol'. Yn ôl pob tebyg, nid oes un esboniad am yr amrywiad hwn, ond mae'n debyg bod amrywiadau mewn systemau ar gyfer gweinyddu'r grant yn ffactorau cyfrannol.

[8] Nid yw'r data a gasglwyd yn caniatáu i'r gymhariaeth hon gael ei gwneud ar gyfer Gogledd Iwerddon

Tabl 8. Profiadau aelwydydd a arolygwyd o wneud cais am DFG mewn detholiad o awdurdodau lleol yng Nghymru

Awdurdod lleol		Profiadau o wneud cais am DFG			Cyfanswm
		Da yn gyffredinol	Cymysg	Drwg yn gyffredinol	
Awdurdod Lleol A	N	5	0	1	6
	%	83%	0%	17%	100%
Awdurdod Lleol B	N	5	1	1	7
	%	72%	14%	14%	100%
Awdurdod Lleol C	N	4	3	1	8
	%	50%	38%	12%	100%
Awdurdod Lleol D	N	5	1	5	11
	%	46%	8%	46%	100%
Awdurdod Lleol E	N	3	0	4	7
	%	43%	0%	57%	100%

Mae'n ymddangos bod profiadau rhieni hefyd yn dibynnu i raddau helaeth ar y flwyddyn y gwnaethant gais am y grant. Mae Tabl 9 yn dangos bod rhieni a wnaeth gais ar ôl 2004 yn tueddu i adrodd lefelau uwch o fodlonrwydd na rhieni a wnaeth gais cyn hynny. Er nad yw'r amrywiad hwn yn arwyddocaol o ran ystadegau, mae yn dangos gwelliannau posibl o ran cyflwyno DFGau.

Tabl 9. Profiadau aelwydydd a arolygwyd o wneud cais am DFGau yn ôl blwyddyn gwneud cais

Blwyddyn gwneud cais		Profiadau o wneud cais am DFG			Cyfanswm
		Da yn gyffredinol	Cymysg	Drwg yn gyffredinol	
2003 neu gynt	N	1	7	11	19
	%	5%	37%	58%	100%
2004	N	2	0	3	5
	%	40%	0%	60%	100%
2005	N	5	3	1	9
	%	56%	33%	11%	100%
2006	N	10	6	7	23
	%	44%	26%	30%	100%
2007	N	11	1	6	18
	%	61%	6%	33%	100%
2008	N	8	4	3	15
	%	53%	27%	20%	100%
Ansicr	N	2	2	4	8
	%	25%	25%	50%	100%

Mae Tabl 10 yn rhoi crynodeb o amrywiadau ym mhrofiadau rhieni, yn ôl y math o addasiad a gyllidwyd. Mae'n dangos bod profiadau'n arbennig o negyddol am addasiadau mawr megis estyniadau eiddo ac addasiadau ystafell wely. I'r gwrthwyneb, mae addasiadau llai, megis addasiadau gardd neu osod gwres canolog, yn arwain at brofiadau mwy cadarnhaol.

Tabl 10. Profiadau aelwydydd a arolygwyd o wneud cais am DFGau yn ôl math yr addasiad a gyllidwyd

Math o addasiad		Profiadau o wneud cais am DFG			Cyfanswm
		Da yn gyffredinol	Cymysg	Drwg yn gyffredinol	
Lifft grisiau	N	2	0	1	3
	%	67%	0%	33%	100%
Estyniad eiddo	N	3	5	5	13
	%	22%	39%	39%	100%
Addasiad ystafell ymolchi	N	20	8	6	34
	%	59%	23%	18%	100%
Addasiad ystafell wely	N	2	2	2	6
	%	33%	33%	33%	100%
Symud cartref	N	0	1	0	1
	%	0%	100%	0%	100%
Gwres canolog	N	4	0	1	5
	%	80%	0%	20%	100%
Mynediad cyffredinol i'r anabl	N	4	1	4	9
	%	44%	12%	44%	100%
Addasiad gardd	N	2	1	0	3
	%	67%	33%	0%	100%

Profiadau cadarnhaol

Mae'n amlwg i lawer o rieni gael profiadau 'da yn gyffredinol' o wneud cais am DFG. Mae Tabl 11 yn rhoi rhagor o fanylion ar yr agweddau penodol o wneud cais a wnaeth y profiad yn gadarnhaol. Roedd y rhan fwyaf (44%) o sylwadau cadarnhaol yn gysylltiedig â gwasanaeth da a chymorth gan y staff sy'n gweinyddu'r grant a chan wasanaethau cymdeithasol.

> *'Cawson ni fod therapydd galwedigaethol y gwasanaethau cymdeithasol mor gymwynasgar a dywedodd e wrthon ni'r cyfan roedd angen i ni ei wybod ac anghenion ein merch oedd bennaf iddo.' (Rhiant)*

> *'Yn y pen draw, daethon ni o hyd i'r adran gywir ac yna roedd hi'n ymddangos bod pethau'n symud yn gyflym iawn ac awgrymwyd rhai newidiadau i helpu nad oedden ni hyd yn oed wedi meddwl amdanyn nhw. Roedd pawb yn gymwynasgar ac yn gyfeillgar iawn ar yr adeg hon, o gyngor i gontractwyr adeiladu.' (Rhiant)*

Hefyd, nodwyd ansawdd a nifer yr addasiadau (27%) a phroses effeithlon (29%) yn brofiadau cadarnhaol gan rieni. Mewn gwirionedd, datgelodd cyfweliadau â sawl cynrychiolydd awdurdod lleol fod nifer o gamau'n cael eu cymryd i leihau'r oedi mewn cwblhau addasiadau. Er enghraifft, dywedodd un cynrychiolydd awdurdod lleol eu bod yn gyntaf yn dilyn plant sydd ar y rhestr aros, wrth i ail awdurdod ddilyn yn gyflym unrhyw geisiadau sy'n llai na £5,000.

> *'Roeddwn i'n ddiolchgar…gosod cynnyrch ardderchog i safon uchel.' (Rhiant)*

> *'Cynhaliwyd yr asesiad o fewn ychydig o wythnosau a chawson ni benderfyniad yn syth. Gwnaethon ni gais yn Chwefror ac roedd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn Mehefin achos roedd e'n flaenoriaeth. Roedden nhw'n ystyriol ac yn gymwynasgar iawn.' (Rhiant)*

Tabl 11. Agweddau cadarnhaol ar geisiadau DFG gan yr aelwydydd a arolygwyd

Agwedd ar gais DFG	Nifer yr aelwydydd	Canran yr aelwydydd a atebodd
Ansawdd a nifer yr addasiadau	15	27%
Gwasanaeth a chymorth da	24	44%
Effeithlonrwydd y broses	16	29%
Cyfanswm	**55**	**100%**

Profiadau negyddol

Mae Tabl 12 yn rhoi crynodeb o brofiadau negyddol penodol rhieni o wneud cais am DFG. Yn nodedig, mae cyfanswm y sylwadau negyddol yn llawer uwch na chyfanswm y sylwadau cadarnhaol (Tabl 11). Roedd bron i hanner yr holl brofiadau negyddol y soniodd rhieni amdanynt yn gysylltiedig ag oedi yn y broses, gan ei wneud y profiad negyddol a ddyfynnwyd fynychaf. Mewn pennod gynharach, darganfuwyd bod amseroedd cwblhau wedi lleihau yn ystod blynyddoedd diweddar, ond mae'r canfyddiad hwn yn dangos bod angen gwelliannau o hyd.

> *'Rydyn ni'n ddwy flynedd i mewn iddi hi ac yn dal i fod heb ddim help. I rai teuluoedd, gallai un plentyn fod wedi marw erbyn hyn. Dyma'r profiad mwyaf cythruddol dw i erioed wedi cael.' (Rhiant)*

> *'Pan fo angen offer arnoch chi, mae ei angen arnoch chi'n syth, nid ymhen misoedd neu flynyddoedd. Mae hi ond yn achosi mwy o straen ar ofalwyr/rhieni yn feddyliol ac yn gorfforol a allai achosi anaf i ofalwyr.' (Rhiant)*

Yr ail brofiad negyddol a ddyfynnwyd fynychaf oedd anawsterau gyda staff cymorth ac adeiladwyr. Er bod y rhain yn ddau grŵp gwahanol o bobl, cafodd effaith cymorth gwael neu agwedd wael gan y naill un effaith debyg ar yr aelwyd. Roedd problemau gyda staff cymorth yn cynnwys anawsterau wrth gysylltu a diffyg cymorth yn ystod y broses. Un o'r prif broblemau gyda chontractwyr ac adeiladwyr oedd y diffyg parch am yr eiddo a'r teulu. Hefyd, cafodd rhai rhieni anawsterau wrth ddod o hyd i adeiladwr a fyddai'n ymgymryd â'r addasiad.

> *'Y rhan waethaf oedd cael ein trosglwyddo o gwmpas o bared i bost trwy'r broses grant. Gallai e fod yn brofiad llawer llai straenus os yw 'gweithiwr allweddol' neu un person ddelio â'r cais trwy'r broses gyfan.' (Rhiant)*

> *'Mae safon y gweithwyr a sut maen nhw'n trin eich eiddo a'r diffyg gofal a goruchwylio llwyr gan grantiau'n warthus.' (Rhiant)*

> *'Er bod y grant ar gael yma, mae adeiladwyr sy'n barod i wneud gwaith ar sail grant yn brin. Roedd rhaid i mi apelio ar y radio lleol a ches i un ateb, ond mae'r cyngor eisiau prisiau gan ddau. Efallai y gallai hyn wneud y grant yn anhygyrch.' (Rhiant)*

Trydydd profiad negyddol a ddyfynnwyd yn fynych oedd safon wael yr addasiad, neu addasiadau y canfuwyd eu bod yn amhriodol. Er enghraifft, roedd llawer o rieni wedi cwyno nad oedd yr awdurdod lleol a'r contractwyr yn fodlon datrys problemau gydag addasiadau. Hefyd, roedd rhai rhieni'n teimlo nad oedden nhw'n gallu dylanwadu ar ba addasiadau a osodwyd. Mewn pennod flaenorol, darganfuwyd bod hyn hefyd yn atal rhai rhieni rhag gwneud cais.

> *'Mae'n ymddangos bod holl reolaeth y prosiect yn cael ei cholli ar ôl i'r grant gael ei roi. Beth mae'r cyngor eisiau yw e, yn lle beth mae angen ar y person anabl.' (Rhiant)*

Roedd bron i 10% o'r holl brofiadau negyddol a ddyfynnwyd yn gysylltiedig ag anawsterau gyda'r broses asesu a chael eu hatal rhag gwneud cais. Darganfuwyd mewn pennod flaenorol nad yw rhai rhieni'n gwneud cais am y rheswm hwn, ac i'r rhai sydd yn dal i wneud cais, yn aml mae'n gwneud y profiad yn un drwg. Un ffordd mae rhieni'n cael eu hatal yw trwy amlygu bod gwaith aros hir am asesiad. Yn yr un modd, dywedir wrth rai rhieni nad ydyn nhw'n gallu gwneud cais oherwydd eu daliadaeth tŷ.

> *'Dywedwyd wrthon ni fod 'na restr aros hir iawn i gael eich asesu gan y Therapydd Galwedigaethol ac y bydden ni'n cael ein rhoi ar y rhestr. Yn fy marn i o'r sgwrs â'r cyngor, ceision nhw berswadio fi i beidio â gwneud cais oherwydd y rhestr aros hir iawn.' (Rhiant)*

Mae Tabl 12 yn dangos bod 8% o'r holl brofiadau negyddol a ddyfynnwyd yn gysylltiedig â'r angen i wneud cyfraniad ariannol. Gwnaeth rhai rhieni sylw bod y swm a roddwyd gan y DFG yn annigonol ac arweiniodd at daliadau'n cael eu gwneud yn uwch na'r terfyn £30,000. Datgelwyd mewn pennod flaenorol mai dyma pam nad oedd rhai rhieni'n gallu parhau â'r cais DFG. Hefyd, weithiau mae cyfraniadau ariannol yn cael eu gwneud pan fo'r grant yn llai na £30,000. Er enghraifft, efallai y bydd yn ofynnol i riant dalu am ailaddurno ar ôl i addasiad gael ei osod

> *'Bu'n rhaid i mi fenthyg arian i ychwanegu at y grant – dyw £30,000 ddim yn ddigon.' (Rhiant)*

> *'Roedd y grant yn cynnwys yr holl waith yr oedd ei angen i addasu fy eiddo, ond dim arian ar gyfer addurno neu loriau yr oedd eu hangen. Dw i yn meddwl y dylai arian gael ei roi oddi mewn i'r grant ar gyfer ailaddurno a lloriau ar ôl i'r gwaith gael ei wneud.' (Rhiant)*

Tabl 12. Agweddau negyddol ar geisiadau DFG gan aelwydydd a arolygwyd

Agwedd ar addasiad DFG	Nifer yr aelwydydd	Canran yr aelwydydd a atebodd
Siomedigaeth wrth beidio â derbyn grant	9	10%
Oedi yn y broses	45	49%
Anawsterau gyda'r asesu/ataliwyd rhag gwneud cais	8	9%
Anawsterau gyda'r staff cymorth a'r adeiladwyr	13	14%
Gofyniad i wneud cyfraniad ariannol	7	8%
Safon wael neu addasiadau anaddas	9	10%
Cyfanswm	**91**	**100%**

Mae'r drafodaeth uchod yn dangos bod rhieni'n cael ystod eang o brofiadau negyddol wrth wneud cais am DFG. Mae dadansoddiad manylach o'r profiadau hyn yn dangos bod mathau penodol o addasiad yn fwy tebygol o gael eu cysylltu â phrofiadau negyddol penodol (Tabl 13). Mae Tabl 13 yn dangos i rieni a wnaeth gais am addasiadau mwy, megis estyniad i'r eiddo, gael anawsterau penodol gydag oedi yn y broses. Er bod oedi yn y broses yn fater allweddol i rieni sy'n gwneud cais am addasiadau llai, mae Tabl 13 yn dangos bod anawsterau gyda staff cymorth yn fwy amlwg ar gyfer addasiadau bach nag y maent wrth wneud cais am addasiadau mwy. Dylid nodi nad yw'r canfyddiadau hyn yn arwyddocaol o ran ystadegau, ond maen nhw'n cynnig mewnwelediad eang i amrywiaethau mewn profiad yn ôl math a graddfa yr addasiad.

Tabl 13. Agweddau negyddol ar geisiadau DFG yn ôl math yr addasiad

Math yr addasiad		Profiadau negyddol					Cyfanswm
		Oedi yn y broses	Anawsterau asesu	Anawsterau gyda staff cymorth	Gofynnol i wneud cyfraniad ariannol	Safon wael / addasiadau anaddas	
Lifft grisiau	N	1	1	1	0	0	3
	%	33%	33%	33%	0%	0%	99%
Estyniad eiddo	N	10	1	1	2	3	17
	%	59%	6%	6%	12%	17%	100%
Addasiad ystafell ymolchi	N	17	0	2	3	5	27
	%	63%	0%	7%	11%	19%	100%
Addasiad ystafell wely	N	2	0	3	0	2	7
	%	29%	0%	42%	0%	29%	100%
Symud cartref	N	1	0	0	0	0	1
	%	100%	0%	0%	0%	0%	100%
Gwres canolog	N	2	0	2	0	0	4
	%	50%	0%	50%	0%	0%	100%
Mynediad cyffredinol i'r anabl	N	4	0	2	1	1	8
	%	50%	0%	26%	12%	12%	100%
Addasiad gardd	N	1	0	0	0	0	1
	%	100%	0%	0%	0%	0%	100%

Casgliadau ac argymhellion

Rhwng Chwefror 2004 a Rhagfyr 2005, diddymwyd y prawf modd rhieni ar gyfer cael mynediad at Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yng Ngogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr. Yr astudiaeth hon yw'r gyntaf yn y DU i archwilio effaith y diddymiad. Nid yw'r astudiaeth yn honni rhoi dadansoddiad cynhwysfawr, am ei fod yn gyfyngedig o ran graddfa. Fodd bynnag, mae'n rhoi arwydd o sut mae pethau wedi newid yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r astudiaeth hefyd yn rhoi tystiolaeth ychwanegol i ddadleuon cyfredol ar rai o'r materion ehangach sy'n gysylltiedig â DFGau. Yn wahanol i lawer o astudiaethau eraill, mae'r dystiolaeth ychwanegol hon yn seiliedig ar brofiadau teuluoedd. Mae'r bennod olaf hon yn tynnu prif ganfyddiadau'r ymchwil at ei gilydd ac yn gwneud 10 argymhelliad ar gyfer gwella o dan bedair thema eang: casglu data, newidiadau mewn mynediad dros amser, mynediad at wybodaeth a chyngor, a phrofiadau o'r broses DFG.

Casglu data

- Nid yw'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru'n casglu data ar addasiadau DFG i blant, felly dim ond ymwybyddiaeth gyfyngedig sydd gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru o fynediad i blant. Heb y data hwn mae'n anodd arwain ymyraethau gwasanaeth a pholisïau a monitro effaith newidiadau i ddarpariaeth. I'r gwrthwyneb, mae Awdurdod Gweithredol Tai Gogledd Iwerddon yn casglu ystod o ddata ar fynediad at DFGau i blant.

- Dangosodd yr astudiaeth hon fod rhywfaint o'r data a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru'n anghywir ac yn aml yn ddigymar â data gan awdurdodau lleol eraill. Nid oes proses archwilio glir ar gyfer monitro dibynadwyedd data ar DFGau i blant.

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyn i'r holl awdurdodau lleol ddychwelyd data ar fynediad at DFGau i blant. Dylai hyn adlewyrchu'r data a gasglwyd ar yr holl DFGau. Bydd y broses hon yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i fonitro awdurdodau lleol sy'n perfformio'n wael a gwella cysondeb.

Argymhelliad 2

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru archwilio'n rheolaidd gywirdeb a chymharedd unrhyw ddata a ddychwelir ar DFGau i blant.

Newidiadau mewn mynediad dros amser

- Ar ôl diddymu'r prawf modd rhieni yng Ngogledd Iwerddon (2004) a Chymru (2005), roedd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymholiadau, cymeradwyaethau a cheisiadau a gwblhawyd ar gyfer DFGau i blant.
- Er 2004 bu gostyngiad cyson yn yr amseroedd cwblhau cyfartalog ar gyfer DFGau i blant yng Nghymru. Mae'n debyg y gellir priodoli'r gwelliant hwn i welliannau ym mherfformiad awdurdodau lleol. Fodd bynnag, rhwng 2006 a 2007, mae gwelliannau mewn amseroedd cwblhau cyfartalog wedi pallu.

- Mae'r gost gyfartalog o addasiadau DFG fesul aelwyd yng Nghymru wedi aros yn gymharol gyson er 2004, pan fu cynnydd bychan yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n ymddangos na chafodd y prawf modd rhieni effaith sylweddol ar gost gyfartalog DFG.
- Mae'n ymddangos bod profiadau rhieni o wneud cais am DFG wedi gwella ychydig ers diddymu'r prawf modd rhieni, yn enwedig rhwng 2007 a 2008. Dangosodd arolygon holiadur fod 61% o rieni a wnaeth gais yn 2007 wedi cael profiad 'da yn gyffredinol'. I'r gwrthwyneb, roedd 40% o rieni a wnaeth gais yn 2004 yn disgrifio'u profiad fel 'da yn gyffredinol'.

Mynediad at wybodaeth a chyngor

- Mae mwyafrif mawr o rieni (oddeutu 80%) yn credu nad oes digon o wybodaeth am bwy sy'n gallu gwneud cais am DFG, lle i wneud cais a beth mae'n gallu cael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Yn gyffredinol, mae hyn yn dangos nad yw awdurdodau lleol yng Nghymru a NIHE yn hyrwyddo argaeledd DFGau yn effeithiol. Mae'r canfyddiad hwn yn gwrthddweud yn arwyddocaol bwynt 5.21 o adroddiad taclau archwilio hunanasesu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol 2007/08 a luniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn yr adroddiad, nododd 20 o 22 awdurdod lleol yng Nghymru eu bod wedi cyflawni'r safle uchaf (sgôr o 6) wrth drefnu bod gwybodaeth ar gael i deuluoedd plant anabl ynghylch hawl i Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae'r canfyddiad hwn yn codi pryderon ynghylch effeithiolrwydd y teclyn hunanasesu sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i fonitro darpariaeth gwybodaeth am DFGau i deuluoedd a phlant.
- Er gwaethaf diffygion amlwg yn narpariaeth DFGau, mae bron i 20% o rieni'n credu bod digon o wybodaeth ar gael. Mae hyn yn debyg o fod o ganlyniad i arfer da gan awdurdodau lleol a swyddfeydd rhanbarthol NIHE, sy'n hyrwyddo DFGau ymysg asiantaethau ac unigolion sy'n gweithio gyda theuluoedd plant anabl.

Argymhelliad 3

Dylai awdurdodau lleol yng Nghymru a NIHE sicrhau eu bod yn rhagweithiol wrth gyflwyno gwybodaeth am DFGau. Bydd hyn yn gofyn am fwy o gyfathrebu ag ystod eang o asiantaethau ac unigolion sy'n cefnogi rhieni sydd â phlant anabl.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu ymchwil i archwilio dulliau o wella lledaenu gwybodaeth ymysg teuluoedd sydd â phlant anabl. Hefyd, dylai'r ymchwil ystyried sut gellir monitro darpariaeth gwybodaeth yn fwy effeithiol.

Profiadau o'r broses DFG

- Cafodd oddeutu 60% o rieni brofiadau a ddosbarthwyd fel 'drwg yn gyffredinol' neu 'cymysg', sy'n gyfystyr â chyfradd uchel o anfodlonrwydd. Cafodd llawer o rieni (40%) brofiadau 'da yn gyffredinol' sy'n amlygu'r anghysondebau wrth gyflwyno DFGau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.
- Mae'n ymddangos bod lefelau cyffredinol o fodlonrwydd yn amrywio yn ôl lle mae'r plant yn byw a graddfa'r addasiad. Er enghraifft, cafodd 83% o rieni yn un awdurdod lleol yng Nghymru brofiadau 'da yn gyffredinol', er bod y ffigur yn llawer is (43%) mewn ardal arall. Yn yr un modd, cafodd 80% o rieni a gafodd wres canolog trwy DFG brofiadau 'da yn gyffredinol', lle mai dim ond 22% yw'r ffigur ar gyfer rhieni a gafodd estyniad eiddo.
- Mae canran uchel (44%) o brofiadau cadarnhaol o wneud cais am y grant oherwydd cymorth da gan y staff sy'n gweinyddu'r grant a chan wasanaethau cymdeithasol. Mae profiadau cadarnhaol eraill yn cynnwys ansawdd da a nifer yr addasiadau a phroses effeithlon. Amlygir anghysondebau mewn gwasanaethau ymhellach gan y ffaith bod llawer o'r profiadau negyddol (isod) hefyd yn perthyn i gymorth staff, ansawdd addasiadau ac effeithlonrwydd y broses
- Mae oddeutu hanner o'r holl brofiadau negyddol o wneud cais am DFG yn gysylltiedig ag oedi yn y broses. Yn benodol, mae oedi'n gyffredin ar gyfer addasiadau mwy, er ei fod hefyd yn fater ar gyfer addasiadau llai. Yn amlwg, mae hyn yn dangos bod angen rhagor o ostyngiadau o ran amseroedd cwblhau, er gwaethaf gwelliannau diweddar.
- Yn aml, dyfynnwyd safon wael a diffyg cyfaddasrwydd rhai addasiadau'n broblem. Mae'n ymddangos bod teuluoedd weithiau'n teimlo allan o reolaeth o'r broses, gyda dim ond galluoedd cyfyngedig o ddylanwadu ar yr effaith ar eu heiddo. Hefyd, mae addasiadau amhriodol weithiau'n atal rhieni rhag gwneud cais.
- Mae tystiolaeth bod rhai rhieni'n cael eu hatal rhag gwneud cais DFG. Mae'n ymddangos bod hyn yn fwriadol, gyda rhieni efallai wedi'u hysbysu na allant wneud cais oherwydd eu daliadaeth neu y dywedir wrthynt am gael benthyciad gwerthfawrogiad eiddo. Fel arall, mae rhai rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu hatal gan restrau aros sydd yn aml yn hir iawn.
- Nid yw'r prawf modd rhieni'n fater bellach, fodd bynnag mae rhai rhieni'n dal i orfod dod o hyd i gyllid ychwanegol er mwyn cwblhau addasiad. Mae hyn o ganlyniad i'r terfyn £30,000 blaenorol y gellid defnyddio DFGau ar ei gyfer. Er bod rhai awdurdodau lleol a NIHE yn gallu cefnogi rhieni trwy ffynonellau cyllid ychwanegol, mae'r trothwy'n achosi anawsterau ac mewn rhai enghreifftiau, mae'n arwain at rieni'n methu parhau ag addasiad. Yn yr un modd, ambell waith mae rhieni'n wynebu pryder ariannol pan fydd gofyn iddynt dalu i ailaddurno ar ôl i addasiad gael ei gwblhau.

Argymhelliad 5

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ac Awdurdod Gweithredol Tai Gogledd Iwerddon weithredu i leihau oedi yn yr amser o'r ymholiad cychwynnol i gwblhau. Gallai un mecanwaith posibl gynnwys derbyn atgyfeiriadau Therapydd Galwedigaethol yn awtomatig, gan leihau amseroedd asesu ac amser a dreulir ar anghydfodau o ganlyniad. Gallai ail fecanwaith ofyn i awdurdodau lleol sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth â chontractwyr, gan leihau'r amser a dreulir wrth chwilio am gontractwyr a'u comisiynu.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Gweithredol Tai Gogledd Iwerddon ystyried a oes angen rhagor o gyllid ar gyfer DFGau. Nid yw'r astudiaeth hon yn rhoi digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad bod angen rhagor o gyllid, ond gallai gweithredu fel hyn leihau didoli, lle mae awdurdodau lleol yn atal rhieni rhag gwneud cais oherwydd cyllid cyfyngedig.

Argymhelliad 7

Er bod gwelliannau'n bosibl ar gyfer pob math o addasiad, dylai awdurdodau lleol yng Nghymru a NIHE dargedu gwelliannau ar addasiadau graddfa fwy am ei bod yn ymddangos bod profiadau'n arbennig o negyddol ar gyfer y ceisiadau hyn. Dylai awdurdodau lleol ystyried dyrannu swyddogion penodol i ymdrin ag addasiadau dros £15,000.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a NIHE gyflwyno arweiniad ar gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn fwy i'r awdurdodau sy'n gweinyddu grantiau. Dylai'r arweiniad sicrhau bod rhieni'n cael y cyfle i wneud sylwadau ar eu gofynion a dylid gwerthfawrogi'r sylwadau hyn.

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fonitro ymagweddau mae awdurdodau lleol yn cymryd tuag at gyflwyno addasiadau tai, gan gynnig cyngor lle canfyddir ymagweddau i fod yn arfer gwael. Yn ychwanegol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a NIHE hyrwyddo a chyllido gwasanaethau sy'n galluogi rhieni i herio penderfyniadau gwael.

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon ystyried cynyddu'r terfynau £36,000 a £25,000 priodol ar gyfer DFGau er mwyn sicrhau y gellir cwblhau'r holl addasiadau angenrheidiol.

Photo by Katie Barret Photography

Cyfeiriadau

Beresford, B. (2006) *A review of policy levers and opportunities* Adroddiad a baratowyd ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree

Beresford, B. (2008) *Housing and disabled children* Adroddiad casgliadau ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree

Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2007) *Housing in England 2005/06: a report principally from the Survey of English Housing 2005/06* DCLG: Llundain

Gweithgor Grant Cyfleusterau i'r Anabl (2003) *Review of the means test for parents with disabled children*

Heywood, F. (2004) 'The health outcomes of housing adaptations' *Disability and Society* 19(2): 129-143

Heywood, F., Gangoli, G., Langan, J., Marsh, A., Movers, S., Smith, R., Sutton, E., Hodges, M. a Hamilton, J. (2005) *Reviewing the disabled facilities grant programme* ODPM: Llundain

Jones, C. (2005) *Adolygiad o addasiadau tai gan gynnwys grantiau cyfleusterau i'r anabl – Cymru* LICC: Caerdydd

Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru (2007) *Ystadegau Tai Cymru 20077*

McKeever, B. (2006) *Making the impossible possible* Guildhall Press: Derry

Oldman, C. and Beresford, B. (1998) *Homes unfit for children: housing, disabled children and their families* The Policy Press: Bryste